

Ditectif Geiriau



Ditectif Geiriau Llyfr 1

© Testun: Bethan Clement a Non ap Emlyn, 2015.

© Delweddau: Canolfan Peniarth,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2015.

Golygwyd gan Lowri Lloyd.

Dyluniwyd gan Gwenno Henley.
Dyluniwyd y clawr gan Rhiannon Sparks.

Cyhoeddwyd yn 2015 gan Ganolfan Peniarth.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn datgan ei hawl moesol dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 i gael ei hadnabod fel awdur a dylunydd y gwaith yn ôl eu trefn.

Cedwir pob hawl gan yr awduron unigol. Cyhoeddwyd 'Fy nheulu a fi' drwy ganiatâd Atebol ©Atebol Cyfyngedig 2015, cedwir pob hawl gan Atebol.

Ceir atgynhyrchu cynnwys y pecyn hwn at ddefnydd oddi mewn i ysgol y prynwr yn unig.

Cyflwyniad Ditectif Geiriau

Un o nodau Ditectif Geiriau yw cyfarwyddo a chynorthwyo dysgwyr ac athrawon Cyfnod Allweddol 2 gyda chynnwys y Profion Darllen Cenedlaethol yn ogystal ag ategu gofynion ieithyddol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) diwygiedig a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Er y bydd defnyddio'r llyfrau yn help i'r dysgwyr ymgyswrtio ag iaith y profion, e.e. 'tanlinellwch', dylid cofio nad adnodd ar gyfer gwersi Cymraeg a pharatoi ar gyfer y profion yn unig yw hwn. Dylid defnyddio Ditectif Geiriau fel adnodd ystafell ddosbarth i addysgu yn bennaf gan fanteisio ar gyfleoedd i ehangu geirfa a gwybodaeth am iaith y dysgwyr mewn ystod o gyd-destunau. Addysgu a mwynhau drwy gydol y flwyddyn yw un o brif nodau'r gyfres, nid ymarfer ar gyfer y profion ddechrau tymor yr haf.

Nid oes rhaid cyflwyno gweithgaredd cyfan ar yr un pryd i'r dysgwyr. Gellid defnyddio un testun dros gyfnod o amser, gan dynnu sylw at wahanol nodweddion yn y testun wrth baratoi ac yna, roi adborth wedi i'r dysgwyr gwblhau'r dasg.

Yn ogystal â helpu gyda sgiliau darllen y dysgwyr, bydd y gyfres hon yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu ymhellach eu sgiliau llafar, rhifedd a rhesymu.

Mae cwestiwn olaf pob gweithgaredd mewn bocs. Dyma'r cwestiwn trafod neu ysgrifennu estynedig sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr resymu ac mae'n cynnig cyfleoedd gwyb i ddatblygu sgiliau ehangach y dysgwyr.

Mae rhai testunau wedi'u cynnwys heb deitl yn fwriadol am fod adnabod y teitl yn rhan o'r dasg. Mae hyn yn cael ei nodi'n glir yn y cynnwys gyfochr â themâu'r testunau dan sylw.

Mae'r gyfres yn cynnwys pedwar o lyfrau sydd wedi eu graddoli ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2. Mae amrywiaeth o destunau gwahanol fel sbardunau cychwynnol i'r ymarferion, e.e. adroddiad papur newydd, portread, sgript.

Yn ogystal, datblygwyd adnoddau rhyngweithiol i gefnogi'r llyfrau. Gall unigolion neu grwpiau yn yr ysgol eu defnyddio ond gellid hefyd eu defnyddio yn y cartref er mwyn hybu dysgu annibynnol. Gellir cael mynediad i'r gweithgareddau ar <http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/ditectif-geiriau/>.



Cynnwys

1.	Y gair gorau (1)	4
2.	Y gair gorau (2)	6
3.	Ci bach newydd	8
4.	Parti Ceri	10
5.	Y trip i Stadiwm y Mileniwm	12
6.	Pen-blwydd Mam	14
7.	Poster gymnasteg	16
8.	Cerdyn post	18
9.	Y chwilen ddu	20
10.	Nyrs anifeiliaid	22
11.	Y draenog	24
12.	Seren y Cwm	26
13.	Y trip i Eisteddfod yr Urdd	28
14.	Testun heb deitl am gala nofio	34
15.	Fy nheulu i a fi	36
16.	Caffi Cadi	38



Y gair gorau (1)

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un. Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch. Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1. Hoff liw Aled yw _____.

tri ☐ coch ☐ menyn ☐ pêl-droed ☐ oer ☐

2. Mae pump a dau yn gwneud _____.

chwech ☐ saith ☐ wyth ☐ naw ☐ deg ☐

3. Dw i'n mwynhau darllen, felly dw i'n hoffi mynd i'r _____.

siop fwyd ☐ caffi ☐ ysbyty ☐ gwesty ☐ llyfrgell ☐

4. Mae'r rhaglen dywydd ar y teledu'n dweud y bydd hi'n _____ yfory oherwydd bydd hi'n sych ac yn heulog iawn.

oer ☐ ddiflas ☐ wlyb ☐ braf ☐ bwrw glaw ☐

5. Bob bore Sadwrn, dw i'n bwyta _____ am hanner awr wedi saith y bore. Dw i'n cael tost brown a ffrwythau fel arfer.

swper ☐ brecwast ☐ te ☐ cinio ☐ sglodion ☐

6. Mae bwyta llawer o ffrwythau a llysiau yn _____ iawn i ni.

dda ☐ ddrwg ☐ ofnadwy ☐ beryglus ☐ hwyl ☐

7. Sut mae ysgrifennu 750? _____

saith cant ☐ saith cant pum deg ☐ wyth cant ☐

wyth cant pum deg ☐ naw cant pum deg ☐



8. Os wyt ti eisiau rhedeg yn gyflym, rhaid i ti _____ llawer.

gysgu ☐ eistedd ☐ ymarfer ☐ neidio ☐ dringo ☐

9. Mae Mot, y ci, yn dda am wneud beth rydym yn ei ddweud wrtho. Mae e'n gi _____ iawn.

ffyrnig ☐ du a gwyn ☐ ufudd ☐ cas ☐ gwyllt ☐

10. Mae'r _____ yn gwerthu bwyd, dillad, teganau a phob math o bethau.

siop fara ☐ swyddfa bost ☐ archfarchnad ☐

ganolfan hamdden ☐ siop sglodion ☐



11. Faint o'r gloch yw hi ar y cloc?

pum munud wedi dau ☐ pum munud i ddau ☐

deng munud wedi dau ☐ deng munud i dri ☐ chwarter wedi dau ☐

12. Mae Siôn yn mwynhau gymnasteg, felly, bob nos Wener, mae e'n mynd i'r _____.

cae chwarae ☐ pwll nofio ☐ ganolfan hamdden ☐ siop ☐ caffi ☐

13. Mae tad Aled yn dysgu plant yn yr ysgol. Mae e'n _____.

athrawes ☐ athro ☐ athrawon ☐ athletwr ☐ artist ☐

14. Dw i wrth fy _____ yn chwarae gyda fy ffrindiau.

modd ☐ mam ☐ mawr ☐ melyn ☐ môr ☐

15. _____ i raglen gyffrous ar y teledu neithiwr.

Gwyliodd ☐ Gwyliais ☐ Gwylio ☐ Gwyliaf ☐ Gwylio ☐

Y gair gorau (2)

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un. Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch. Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1. Rhaid cael _____ i wneud brechdan.

tatws ☐ bara ☐ pys ☐ reis ☐ sbageti ☐

2. Byddwch yn _____ oherwydd mae'r dŵr yn y sosban yn boeth iawn.

hapus ☐ drist ☐ ofnus ☐ ofalus ☐ iach ☐

3. Dw i'n mwynhau chwarae pêl-droed, felly dw i'n hoffi mynd i'r _____.

pwll nofio ☐ caffi ☐ ysbyty ☐ llyfrgell ☐ cae chwarae ☐

4. Mae Anti Beti yn rhoi anrheg pen-blwydd i mi bob blwyddyn. Mae hi'n _____ iawn.

garedig ☐ ofnadwy ☐ hardd ☐ gas ☐ oer ☐

5. Roedd Dad wedi gosod y _____ ar y bwrdd ar gyfer swper.

llyfrau ☐ llestri ☐ gemau ☐ esgidiau ☐ dillad ☐

6. _____ John y bêl i mewn i'r gôl.

Ciciodd ☐ Sgoriodd ☐ Enillodd ☐

Daliodd ☐ Cerddodd ☐

7. Sut mae ysgrifennu 925?

wyth cant pum deg ☐ wyth cant saith deg pump ☐ naw cant ☐

naw cant dau ddeg pump ☐ naw cant pum deg ☐



8.

Mae llawer o ddŵr ar y ffordd oherwydd mae hi wedi bod yn _____ drwy'r nos.

braf ☐ sych ☐ boeth ☐ oer ☐ bwrw glaw ☐

9.

Mae _____ yn byw mewn powlen wydr fel arfer.

neidr ☐ mochyn cwta ☐ pysgodyn aur ☐ cwningen ☐ llygoden ☐

10.

Mae meddyg yn helpu pobl _____.

iach ☐ ofalus ☐ hapus ☐ sâl ☐ hoffus ☐

11.

Mae Wil yn dysgu nofio, felly mae o'n mynd i'r pwll nofio _____ wythnos.

yn ☐ bob ☐ ar ☐ pan ☐ diwedd ☐

12.

Mae gwyliau'r haf ym mis _____.

Ionawr ☐ Mawrth ☐ Awst ☐ Hydref ☐ Rhagfyr ☐

13.

Dw i'n darllen _____ stori diddorol iawn.

papur ☐ llyfr ☐ e-bost ☐ llythyr ☐ poster ☐

14.

Mae'r dail yn troi'n _____ yn yr hydref.

goch a gwyn ☐ frown ac oren ☐ wyn a du ☐ binc a gwyrdd ☐
borffor a glas ☐

15.

Roedd y gwynt yn _____ drwy'r nos.

chwarae ☐ chwilio ☐ chwyrnu ☐ chwerthin ☐ chwythu ☐



Darllenwch y testun yn y bocs isod.

Ci bach newydd

Mae Dafydd wedi cael ci bach newydd o'r enw Alffi. Mae o'n ddu a gwyn ac mae ganddo fo glustiau mawr. Ci defaid ydy o ac mae o'n ffrind da i Dafydd.

Mae Dafydd wrth ei fodd efo Alffi ac mae o'n gofalu amdano fo bob dydd. Mae o'n rhoi dŵr ffres iddo fo bob bore, a bob nos mae o'n rhoi bwyd arbennig iddo fo. Mae o'n mynd â'r ci am dro bob dydd.

Mae Dafydd yn dysgu Alffi hefyd. Mae o wedi dysgu iddo eistedd pan fydd o'n dweud "Eistedd" ac i fynd i'r fasged pan fydd o'n dweud "Basged".

1. Beth yw teitl y testun yma?

2. Beth yw enw'r ci?

3. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n disgrifio lliw'r ci.

4. Tanlinellwch y geiriau sy'n dangos sut mae Dafydd yn teimlo am Alffi.





5. Mae Dafydd wedi dysgu i'r ci ...
Ticiwch **un**.

- | | |
|---------|--------------------------|
| eistedd | ☐ |
| gerdded | ☐ |
| fwyta | ☐ |
| yfed | ☐ |



6. Sut mae Dafydd yn gofalu am y ci?
Ticiwch **2**.

- | | | | |
|-------------------------------------|--------------------------|-----------------------------------|--------------------------|
| Mae o'n brwsio'i glustiau. | ☐ | Mae o'n rhoi bwyd a diod iddo fo. | ☐ |
| Mae o'n eistedd efo fo yn y fasged. | ☐ | Mae o'n chwarae efo fo. | ☐ |
| Mae o'n mynd â fo am dro. | ☐ | Mae o'n rhoi bath iddo fo. | ☐ |



Rhaid gofalu am anifeiliaid anwes yn dda. Mewn grŵp, trafodwch sut dylech chi ofalu am yr anifeiliaid hyn:

cath

pysgodyn aur

bwji



DEWCH I BARTI PEN-BLWYDD:

Ceri



Ble? Y Ganolfan Hamdden

Pryd? Gorffennaf 4ydd

Amser: 1.30-3.30 y prynhawn

Beth fydd yn digwydd?

Gemau parasiwt a chastell bownsio

Digon o fwyd blasus a diod

(Cofiwch wisgo dillad ac esgidiau addas)



Ydych chi eisiau dod?

Ydw, dw i eisiau dod os gwelwch yn dda.

Mae'n ddrwg gen i ond dw i ddim yn gallu dod.

Ticiwch:

☐
☐

Enw:

Atebwch erbyn Gorffennaf 1^{af} os gwelwch yn dda: Ceri Pryce, Ty'n y cae, Llanaber.

Ffôn: 01975 675 341



1. Beth yw'r testun yma?
Ticiwch **un**.

- rysáit ☐
- gwahoddiad ☐
- stori ☐
- cerdd ☐



2. Am faint o amser fydd y parti'n para?
Ticiwch **un**.

- 1 awr ☐
- 1 awr a hanner ☐
- 2 awr ☐
- 2 awr a hanner ☐



3. Darllenwch y darn eto ac yna ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**.

	Cywir	Anghywir
1. Mae'r parti yn y pwll nofio.		
2. Mae'r parti'n digwydd yn yr haf.		
3. Does dim bwyd yn y parti.		
4. Rhaid anfon e-bost at Ceri.		



4. Pam mae llun siswrn a chyfeiriad Ceri yn y darn?



Yn eich barn chi, beth yw'r dillad a'r esgidiau addas ar gyfer y parti yma?

Rhowch resymau dros eich atebion.

Yn eich barn chi, pa fath o fwyd a diod fydd yn y parti?

Rhowch resymau dros eich atebion.

Darllenwch y testun sydd yn y bocs isod.



Y trip i Stadiwm y Mileniwm

Roedd calon Gari yn curo'n uchel. Roedd e mor gyffrous achos heddiw, roedd e'n mynd ar drip i Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Aeth i lawr y grisiau a bwytdodd ei frechwast ar frys gwyllt.

"Gari, cymer bwyll," meddai ei fam. "Mae digon o amser cyn bydd y bws yn gadael."

1.

Beth yw teitl y testun hwn?

2.

Pam roedd calon Gari yn curo'n uchel? Ticiwch **un**.

achos roedd e wedi bod yn brysio

☐

achos roedd e'n gyffrous

☐

achos roedd e yn Stadiwm y Mileniwm

☐

achos roedd e'n hwyr

☐

3.

Pwy sy'n siarad yn y testun?

4.

Ble mae Stadiwm y Mileniwm?

5.

Edrychwch ar y llinell yma eto.

“Gari, cymer bwyll,” meddai ei fam.

Beth yw ystyr y gair ‘meddai’? Ticiwch **un**.

gofynnodd

☐

cwynodd

☐

dywedodd

☐

atebodd

☐

Gweithiwch mewn grŵp. Ble hoffech chi fynd ar drip?
Ysgrifennwch enw’r lle ar ddarn o bapur a rhowch ef wyneb i
waered ar ganol y bwrdd. Yna, trowch y papurau drosodd.

Trafodwch:

- fanteision ac anfanteision pob lle
- p’un yw’r lle gorau
- pryd yw’r amser gorau i fynd yno.

Cofiwch roi digon o resymau dros eich barn. Ceisiwch berswadio
pawb arall i gytuno â chi.

Darllenwch y testun yn y bocs isod.

Pen-blwydd Mam

Mae Mam yn cael ei phen-blwydd yfory ac felly dw i'n mynd i roi syrpreis iddi hi.

Fel arfer, mae Mam yn codi tua wyth o'r gloch y bore ond dw i'n mynd i godi am hanner awr wedi saith a dw i'n mynd i baratoi brecwast bach iddi hi. Dw i'n mynd i roi miwsli, tost brown, ffrwythau a sudd oren ar hambwrdd ac yna, am chwarter i wyth, dw i'n mynd i guro ar ddrws ei hystafell wely a gweiddi "Pen-blwydd Hapus". Yna, dw i'n mynd i gerdded i mewn, yn cario'r hambwrdd a dw i'n mynd i roi'r brecwast iddi hi yn y gwely.

Bydd Mam wrth ei bodd oherwydd mae hi'n hoffi cael brecwast yn y gwely. Bydd hi'n dweud, "Diolch o galon i ti, Rhys."



1. Beth yw teitl y testun?

2. Pwy sydd wedi ysgrifennu'r testun?

3. Copïwch y geiriau sy'n sôn am amser ar y cloc.

a. _____

b. _____

c. _____





4.

Pa eiriau yn y paragraff olaf sy'n golygu 'Bydd Mam yn hapus iawn'?
Copïwch y geiriau yma.



5.

Beth yw hambwrdd?
Ticiwch **un**.

bwyd i'w fwyta amser brecwast ☐

rhywbeth i gario platiau a bwyd ☐

rhan o'r gwely ☐

cerdyn pen-blwydd ☐



Ydy'r brecwast yn y testun yn iach? Pam rydych chi'n dweud hynny?

Ydych chi'n bwyta brecwast iach fel arfer?

Sut gallech chi wneud eich brecwast yn fwy iach?



Darllenwch y testun yma.



Cadw'n heini yn ystod yr haf

Gymnasteg ar gyfer plant 5-7 oed

Ydych chi eisiau gwneud gymnasteg yn ystod gwyliau'r haf?
Ydych chi eisiau gwneud ffrindiau newydd a chael hwyl yr un pryd?

**Beth am ddod i'r ganolfan hamdden bob prynhawn dydd Llun
yn ystod mis Awst o 1.00 tan 4.00?**



Beth fydd yn digwydd?

dringo rhaffau

cadw'n heini ar y llawr

dysgu sgiliau gymnasteg ar y matiau

neidio ar y trampolîn

a mwy...



Pris: Am ddim

Dewch i gadw'n heini gyda ni.
Cofiwch – cadw'n heini ... cadw'n iach!

1.

Pryd bydd plant yn gallu mynd i wneud gymnasteg?

Ticiwch **un**.

yn ystod y gwanwyn

☐

yn ystod yr haf

☐

yn ystod yr hydref

☐

yn ystod y gaeaf

☐

2.

Ble byddan nhw'n gallu gwneud gymnasteg?

yn yr ysgol

☐

yn y ganolfan hamdden

☐

mewn pwll nofio

☐

ar y cae chwarae

☐



3. Am faint o'r gloch bydd y gymnasteg yn dechrau?
Ticiwch **un**.

- | | |
|---------------------|--------------------------|
| am un o'r gloch | ☐ |
| am bedwar o'r gloch | ☐ |
| am bump o'r gloch | ☐ |
| am saith o'r gloch | ☐ |



4. Beth fydd y plant yn ei wneud?
Cysylltwch y geiriau ar y chwith â'r geiriau ar y dde.
Mae un wedi ei wneud i chi.

dringo

neidio

dysgu sgiliau gymnasteg


cadw'n heini

ar y matiau

ar y llawr

ar y trampolîn

rhaffau



5. Faint fydd hyn yn ei gostio?
Ticiwch **un**.

- | | |
|-------------|--------------------------|
| dim byd | ☐ |
| un bunt | ☐ |
| pedair punt | ☐ |
| saith bunt | ☐ |



Ydych chi'n meddwl bod mynd i'r sesiynau gymnasteg dros yr haf yn syniad da?

Rhowch resymau dros eich ateb.

Darllenwch y testun yma.

Helo Nain,

Mae Abersoch yn wych! Rydym yn mynd i lan y môr bob dydd ac mae Jac a fi'n mwynhau chwarae ar y traeth a sbasio yn y môr. Mae Dad a Mam yn eistedd ar y traeth drwy'r dydd ac maen nhw'n hapus iawn. Rydym yn mynd i Bwllheli yfory. Dw i'n edrych ymlaen.

Mae'r tywydd yn wych. Mae hi'n heulog ac yn boeth iawn.

Hwyl fawr tan ddydd Sadwrn. Rydym yn edrych ymlaen at gael te gyda chi ar ôl cyrraedd adre.

Cariad

Jac a Mali



Mrs Jones

Awelfa

Bryn Mynydd

Sir Ddinbych

1. Pwy sydd wedi ysgrifennu'r cerdyn post yma?

2. Pwy sydd i fod i dderbyn y cerdyn post?

3. Ble mae'r person yma'n byw?
Ticiwch **un**.

Abersoch

☐

Bryn Mynydd

☐

Ar y traeth

☐

Pwllheli

☐



4. Sut mae'r tywydd?

- | | |
|---------|--------------------------|
| gwlyb | ☐ |
| stormus | ☐ |
| oer | ☐ |
| braf | ☐ |



5. Dewiswch a chopiwch **2** air sy'n dangos beth mae Mali a Jac yn ei wneud.



6. Dewiswch a chopiwch **un** gair sy'n dangos sut mae Mam a Dad yn teimlo.



7. Pryd mae Mali a Jac yn dod adre?




8. Pam maen nhw'n edrych ymlaen at ddod adre?



Beth mae Mali'n ei feddwl o'r gwyliau?

Rhowch resymau dros eich ateb.

Darllenwch y testun sydd yn y bocs isod.



Y chwilen ddu

Chwilen yw un o bob pedwar anifail yn y byd. Mae tua 350 000 o wahanol fathau o chwilog yn y byd.

Mae gan y chwilen ddu bedair set o adenydd ond dydy hi ddim yn gallu hedfan yn bell iawn. Hefyd, mae ganddi chwe choes.

Fel arfer, mae'r chwilen ddu yn byw am tua blwyddyn. Mae hi'n bwyta pryfed, cynrhon a phlanhigion. Weithiau, mae'r chwilen ddu yn cael damwain ac yn colli ei phen, ond dydy hi ddim yn marw. Mae hi'n gallu byw am dair wythnos ond wedyn mae hi'n marw. Pam? Achos dydy hi ddim yn gallu bwyta.



1. Beth yw teitl y testun?

2. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Mae'r chwilen ddu yn gallu hedfan yn dda.		
2. Os yw'r chwilen ddu yn colli ei phen, mae hi'n marw ar unwaith.		
3. Mae miloedd o wahanol fathau o chwilog yn y byd.		
4. Does dim adenydd gan y chwilen ddu.		
5. Mae'r chwilen ddu yn gallu byw am dair wythnos heb fwyd.		



3. Mae un cwestiwn yn y darn. Copïwch ef yma.



4. Mae'r chwilen ddu yn bwyta tri pheth. Beth ydyn nhw?



5. Am faint o amser mae'r chwilen ddu yn byw fel arfer?



6. Sawl coes sydd gan y chwilen ddu?



Ewch am dro i chwilio am chwilod. Faint o chwilod rydych chi'n gallu eu gweld mewn chwarter awr? Ble mae'r lle gorau i chwilio? Eglurwch pam.

Tynnwch luniau o'r chwilod ac yna cymharwch y chwilod weloch chi â'r chwilod a welodd y grwpiau eraill.

Darllenwch y testun yma.

Nyrs anifeiliaid

Mae Catrin yn gweithio fel nyrs anifeiliaid. Mae hi'n helpu'r milfeddyg pan fydd e'n trin anifeiliaid sâl.

Fel arfer, mae hi'n gweithio mewn milfeddygfa yn helpu gyda'r anifeiliaid bach, ond weithiau rhaid iddi hi fynd allan i ffermydd i helpu i drin ceffyl neu fuwch neu anifail mawr arall sy'n sâl. Mae pawb yn hoffi Catrin achos mae hi'n garedig iawn wrth yr anifeiliaid ac mae hi'n gofalu amdany'n nhw'n wych.

Mae hi'n gwisgo trowsus gwyrdd tywyll a thop gwyrdd tywyll i'r gwaith. Pan fydd hi'n helpu Mr Davies i drin anifail, mae hi'n gwisgo menig hefyd.

Mae hi'n dechrau gweithio am wyth o'r gloch y bore ac mae hi'n gorffen tua phedwar o'r gloch y prynhawn. Weithiau, mae hi'n gweithio yn y nos hefyd os oes anifail sâl iawn yn aros yn y filfeddygfa. Mae hi'n gofalu am yr anifail drwy'r nos. Weithiau, mae hi'n siarad yn gyfeillgar â'r anifail.

Mae Catrin yn hoffi pob math o anifeiliaid. Mae ganddi hi dair cath, dau gi, cwningen, pedwar pysgodyn aur a dau geffyl, felly mae hi'n gwybod sut i ofalu am anifeiliaid.



1. Beth yw gwaith Catrin?

Ticiwch **un**

ffermwr ☐

milfeddyg ☐

nyrs ☐

2. Pa liw yw'r wisg mae hi'n ei gwisgo?



3.

Beth arall mae hi'n ei wisgo pan fydd hi'n trin anifeiliaid?

4.

Pa un o'r brawddegau yma sy'n gywir?

Ticiwch **un**.

Mae Catrin yn gweithio yn y filfeddygfa drwy'r dydd bob dydd.

☐

Mae Catrin yn gweithio ar ffermydd drwy'r dydd bob dydd.

☐

Mae Catrin yn gweithio yn y filfeddygfa ac ar ffermydd.

☐

5.

Pan fydd Catrin yn dechrau gwaith am wyth o'r gloch y bore ac yn gorffen am bedwar o'r gloch y prynhawn, sawl awr mae hi'n gweithio?

Ticiwch **un**.

saith awr

☐

wyth awr

☐

naw awr

☐

deg awr

☐

6.

Sawl anifail sydd gan Catrin?



Beth sy'n dangos bod Catrin yn dda gydag anifeiliaid?

Siaradwch am hyn mewn grŵp.

Darllenwch y testun yn y bocs isod.

Y draenog

Ydych chi wedi gweld draenog yn yr ardd erioed? Anifail bach ydy e – tua 15 cm-30 cm. Mae ei gorff yn frown ac yn bigog ac mae ei lygaid a'i glustiau'n fach. Mae ei drwyn yn eitha hir. Mae ganddo gynffon byr – tua 3mm.

Mae'r draenog yn byw yn y clawdd, mewn cae neu mewn coedwig fel arfer ond weithiau mae'n dod i'r ardd. Ambell waith, mae pobl yn rhoi bara a llaeth i'r draenog er mwyn bod yn garedig ond mae bara a llaeth yn gallu gwneud i'r draenog fod yn sâl iawn. Weithiau, mae anifeiliaid fel cŵn a chathod yn rhedeg ar ôl y draenog. Os yw draenog yn synhwyro bod perygl yn agos – bod anifail neu berson yn dod tuag ato – mae'n cau ei gorff yn grwn fel pêl ac yn codi ei bigau – mae ganddo rhwng 5 000 a 7 000 o bigau ar ei gorff.

Yn y nos mae'r draenog yn dod allan fel arfer. Mae'n dod allan i chwilio am fwyd – pryfed, malwod, cig anifeiliaid marw, madarch, gwreiddiau ac aeron.

Mae'r draenog yn cysgu dros y gaeaf, ond cyn gwneud hynny, mae'n gwneud nyth o wellt neu ddail. Cyn cysgu hefyd, mae'r draenog yn bwyta llawer o fwyd er mwyn magu pwysau.



1. Beth yw teitl y testun yma ?

2. Gorffennwch y brawddegau isod drwy gopïo'r gair cywir yn y bwlch.

hir

pigog

byr

Mae gan y draenog gorff _____.

Mae gan y draenog drwyn eitha _____.

Mae gan y draenog gynffon _____.



3. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Fel arfer, mae'r draenog yn byw mewn sw.		
2. Hoff fwyd y draenog yw bara a llaeth.		
3. Mae'r draenog yn troi ei gorff yn bêl weithiau.		
4. Mae'r draenog yn chwilio am fwyd yn ystod y dydd.		
5. Mae'r draenog yn bwyta pryfed.		



4. Beth mae'r draenog yn ei wneud dros y gaeaf?



5. Sut mae'r draenog yn paratoi ar gyfer y gaeaf?

Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n dangos sut mae'r draenog yn paratoi ar gyfer y gaeaf.

a. _____



b. _____



6. Darllenwch y llinell yma.

Oes draenog wedi bod yn eich gardd chi

Mae angen marc atalnodi ar ddiwedd y llinell – ond pa un? Ticiwch yr un cywir.



Beth ddylai pobl ei wneud a beth ddylen nhw ddim ei wneud os oes draenog yn yr ardd?

Seren y Cwm

10 Ionawr 2011

Mae Sian wedi trigo

Ci achub a chwilio oedd Sian. Roedd hi a'i pherchennog, Brian Jones, yn byw yn Llanfairfechan. Daeth Sian yn enwog pan aeth hi i India i weithio.

Yn 2001, roedd daeargryn mawr yn India. Roedd e'n mesur 8.1 ar raddfa Richter. Cafodd 20 000 o bobl eu lladd a 167 000 arall eu brifo. Syrthiodd 400 000 o dai i'r llawr.

Pan gyrhaeddodd Sian a Brian India, roedd rhaid iddyn nhw weithio gyda'r heddlu lleol. Gwaith Sian oedd arogl'r ddaear i ddod o hyd i bobl. "Roedden ni'n marcio'r lleoedd ble roedd Sian yn dangos bod pobl

ac wedyn roedd y peiriannau trwm yn dod i symud y rwbwl," dywedodd Brian. Helpodd Sian i achub 38 o bobl.

Daeth Sian yn arwres leol. Pan aeth Sian a Brian i'r maes awyr i ddod adre, roedd tyrfa yn aros amdanynt. Roedd y bobl eisiau tynnu ei llun hi.

* trigo = marw



1. Beth yw'r dyddiad yn y testun?

2. Beth yw ystyr y gair 'trigo' yn y testun?



3. Beth yw ffurf y testun yma?
Ticiwch un.

- stori ☐
- llythyr ☐
- darn o lyfr gwybodaeth ☐
- adroddiad papur newydd ☐



4. Darllenwch y frawddeg yma.

Pan aeth Sian a Brian i'r maes awyr i ddod adre, roedd tyrfa yn aros amdanynt.

Tanlinellwch y gair sy'n dweud bod llawer o bobl yn y maes awyr.



5. Llenwch y bylchau yn y tabl yma.

Unigol	Lluosog
ci	
	tai
	lleoedd
arwres	



6. Beth yw'r rhif mwyaf yn y testun?



Yn y paragraff olaf, mae'r awdur yn dweud:

Daeth Sian yn arwres leol.

Yn eich barn chi, eglurwch beth yw nodweddion arwr neu arwres.

Pwy yw eich arwr neu arwres chi? Rhowch resymau da dros eich barn.

Yn gyntaf, darllenwch bob testun sydd mewn bocs gwyrdd. Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon i ateb y cwestiynau.

Y trip i Eisteddfod yr Urdd

Dim ond pump o'r gloch y bore oedd hi ond roedd yr haul yn disgleirio drwy ffenest yr ystafell wely. Bore'r gystadleuaeth oedd hi ac roedd Carys yn teimlo'n gyffrous iawn. Cododd yn gyflym a gwisgo'i gwisg ysgol. Roedd hi wedi bod yn edrych ymlaen at Eisteddfod yr Urdd ers wythnosau, ers i'r côr ddod yn gyntaf yn yr Eisteddfod Sir.



1. Beth yw teitl y testun?

2. Ble roedd Carys ar ddechrau'r stori? Ticiwch **un**.

- wrth y ffenest ☐
- yn yr ystafell wely ☐
- yn yr ysgol ☐
- yn yr eisteddfod ☐

3. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Mae'r stori'n digwydd amser te.		
2. Roedd y tywydd yn braf iawn.		
3. Roedd Carys yn mynd i'r Eisteddfod Sir.		
4. Roedd Carys yn mynd i gystadleuaeth.		

4. Dewiswch a chopiwch y gair sy'n dangos sut roedd Carys wedi codi.

Carys oedd y gyntaf i gyrraedd iard yr ysgol ond cyn bo hir cyrhaeddodd y plant eraill. Roedden nhw i gyd yn gyffrous ac yn siarad yn ddi-baid. O'r diwedd, daeth y bws.

"Dewch ymlaen, blant. Ewch i mewn i'r bws," meddai Ms Wynne.

Eisteddodd Carys a'i ffrind, Mari, yn y sedd gefn.

"Wyt ti eisiau diod o ddŵr, Carys?" gofynnodd Mari.

"Na, dim diolch, neu bydda i eisiau mynd i'r tŷ bach," atebodd Carys.



5.

Edrychwch ar y rhan yma o'r stori:

"Wyt ti eisiau diod o ddŵr, Carys?" gofynnodd Mari.

"Na, dim diolch, neu bydda i eisiau mynd i'r tŷ bach," atebodd Carys.

Pam mae'r awdur yn defnyddio dyfynodau (" ")?

Ticiwch **un**.

i ddangos bod syched ar Carys

☐

i ddangos bod Mari a Carys yn siarad

☐

i ddangos bod y merched eisiau mynd i'r tŷ bach

☐

i ddangos bod Mari yn gofyn cwestiwn.

☐

6.

Pam dydy Carys ddim eisiau diod?

Mewn dwy awr, cyrhaeddodd nhw'r eisteddfod. Roedd rhaid iddyn nhw ganu mewn rhagbrawf o flaen y beirniaid. Roedd deg côr yn cystadlu ond dim ond tri oedd yn cael mynd ar y llwyfan yn y babell fawr. Cyn iddyn nhw fynd ar y llwyfan i ganu, siaradodd Ms Wynne â'r côr.

"Nawr 'te, blant. Gwnewch eich gorau," meddai hi. "Cofiwch edrych arna i drwy'r amser a gwnewch yn siwr eich bod yn gwenu hefyd."

Daeth yr amser i'r côr gerdded ar y llwyfan. Roedden nhw'n edrych yn smart iawn yn eu crysau gwyn, eu trowsusau llwyd a'u teis coch a llwyd. Roedd Carys a Mari'n teimlo'n nerfus iawn nawr.

7. Rhowch **un** o'r ffigurau yma ym mhob bwlch.

2

3

10

Roedd y plant wedi bod ar y bws am _____ awr.

Roedd _____ côr yn cystadlu.

Bydd _____ chôr yn canu ar lwyfan y babell.

8. Beth yw'r 3 lliw sydd yng ngwisg ysgol y plant?

9. Dewiswch a chopiwch y gair sy'n dangos sut roedd y plant yn teimlo wrth gerdded ar y llwyfan.

"Da iawn, blant. Canoch chi'n ardderchog."

Roedd y rhagbrawf drosodd ond doedden nhw ddim yn gwybod a oedden nhw'n mynd i ganu ar lwyfan y babell fawr.

"Gobeithio byddwn ni yn y tri cyntaf," meddai Mari.

"Ie," meddai Carys, "efallai byddwn ni ar y teledu wedyn."

10.

Edrychwch ar linell gyntaf y rhan yma eto. Pwy rydych chi'n meddwl sy'n dweud y geiriau yma?

11.

Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Roedd y côr yn mynd i ganu ar lwyfan y babell fawr.		
2. Roedd y côr wedi canu yn y rhagbrawf.		
3. Roedd y côr wedi dod yn y tri cyntaf.		
4. Bydd Carys a Mari ar y teledu.		



"Rydych chi'n gallu mynd am dro o gwmpas y maes nawr," meddai Ms Wynne wrth y plant. "Dewch yn ôl yma erbyn dau o'r gloch. Byddwch yn ofalus. Cadwch mewn grŵp. Peidiwch â mynd ar eich pen eich hun."

"Mae chwant bwyd arna i," meddai Mari.

"A fi. Beth am fynd i gael byrger?" gofynnodd Carys.

"Syniad da."

Aeth y merched i chwilio am y stondin byrgers. Mewn chwarter awr, roedden nhw'n eistedd ar y fainc yn mwynhau byrger a digon o sôs coch.

"O na!" gwaeddodd Carys. "Edrych beth sy wedi digwydd! Bydd Ms Wynne yn wyllt."

Roedd blob mawr o sôs coch wedi syrthio ar grys gwyn Carys. Beth roedd hi'n mynd i'w wneud nawr? Fyddai hi ddim yn gallu mynd ar lwyfan y babell fawr yn gwisgo crys coch a gwyn.

12.

Pryd bydd y plant yn gweld Ms Wynne nesaf? Ysgrifennwch yr amser yma.

13.

Edrychwch ar y rhan yma o'r stori:

"**Dewch** yn ôl yma erbyn dau o'r gloch. **Byddwch** yn ofalus. **Cadwch** mewn grŵp. **Peidiwch** â mynd ar eich pen eich hun."

Pam mae'r awdur yn defnyddio llawer o ferfau sy'n gorffen â '- wch'?

Ticiwch **un**.

i ddangos bod yr athrawes yn grac

☐

i ddangos bod yr athrawes yn dweud wrth y plant beth i'w wneud

☐

i ddangos bod yr athrawes yn rhoi dewis i'r plant

☐

i ddangos bod yr athrawes yn garedig

☐

14.

Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Roedd Ms Wynne yn wyllt.		
2. Ffeindiodd y merched y stondin byrgers.		
3. Roedd sôs coch ar grys Mari.		



Siaradwch am y stori yn eich grŵp.

Ydych chi wedi mwynhau'r stori? Beth rydych chi'n meddwl sy'n mynd i ddigwydd nesaf?



Darllenwch y testun yma y mae Rhys wedi'i ysgrifennu.



Mae Dad yn wirion weithiau!

Roedd gala nofio yn y ganolfan hamdden wythnos diwethaf ac roedd John, fy mrawd, yn nofio. Roedd Dad a fi'n eistedd yn ymyl y pwll nofio, yn gwyllo'r ras. Roedd Dad yn teimlo'n falch iawn – roedd o wedi prynu gwisg nofio newydd i John ac roedd o wedi dweud wrth bawb fod John yn rasio yn y gala.

Yn sydyn, dyma'r chwiban yn canu a'r ras yn cychwyn. Dechreuodd John yn ardderchog a nofiodd o'n gryf ac yn gyflym ar hyd y pwll. Neidiodd Dad ar ei draed i wyllo John. Roedd o'n teimlo'n gyffrous erbyn hyn a dyma fo'n rhuthro draw at y pwll nofio a rhedeg yn gyflym wrth ochr y pwll, gan weiddi nerth ei ben ar John.

Ond roedd y llawr yn llithrig a dyma fo'n syrthio i mewn i'r dŵr gyda sblash enfawr.

Cododd pawb ar eu traed yn dawel i weld beth oedd yn digwydd a dyna lle roedd Dad yn sbasio ac yn gweiddi am help oherwydd nid yw Dad yn nofio'n dda iawn.

Roedd rhaid stopio'r ras er mwyn i un o'r athrawon ddeifio i mewn i'r pwll i achub Dad. Roedd John yn anhapus iawn oherwydd fo oedd yn ennill y ras.

Ydy, mae Dad yn gwneud pethau gwirion, weithiau!

1. Beth yw'r teitl gorau ar gyfer y testun yma?

Ticiwch **un**.

Sblash!

☐

Nofiw'r araf

☐

Tad yn ennill ras

☐

John yn ennill

☐

2. Dewiswch a chopïwch 3 gair sy'n dangos sut roedd John yn nofio.

3. Pa air sy'n dangos bod Dad yn symud yn gyflym tuag at y pwll?



4. Pa ymadrodd (grŵp o eiriau) sy'n golygu 'gweiddi'n uchel iawn'?



5. Rhwch y digwyddiadau hyn yn eu trefn o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Y ras yn dechrau. ☐

Dad yn rhedeg wrth y pwll. ☐

Dad yn eistedd yn gwylio'r ras.

Dad yn cael ei achub. ☐

Dad yn gweiddi am help. ☐



6. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n dangos sut roedd John yn teimlo ar y diwedd.



7. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Roedd Mam a Rhys yn gwylio'r ras.		
2. Roedd y ras ddoe.		
3. Dechreuodd y ras ar ôl i'r gloch ganu.		
4. Roedd pawb yn chwerthin pan syrthiodd tad John a Rhys i mewn i'r pwll.		
5. Mae tad John a Rhys yn nofio'n ardderchog.		



Yn eich barn chi, pa fath o ddyn yw tad John a Rhys?
Rhowch resymau dros eich atebion.

Darllenwch y testun isod.

Fy nheulu i a fi

Mae Mam yn hoffi pasta gwyn;
Mae Dad yn hoffi reis;
Mae 'mrawd yn hoffi pizzas mawr
Â lot o *toppings* neis.

Dw i yn hoffi plataid mawr
O datws, ham a bîns;
Dw i ddim yn hoffi cyri poeth,
Tomatos na sardîns.

Mae Taid yn hoffi dawnsio'n wyllt
Mewn disgo yn y dre;
Mae Nain yn hoffi sglefrio iâ –
Mae'n gleidio dros y lle.

Hedd ap Emlyn



1. Beth yw teitl y testun yma?

2. Beth rydym yn galw'r math yma o destun?
Ticiwch **un**.

rysâit ☐

stori ☐

sgwrs ☐

cerdd ☐

3. Beth yw enw'r bardd?



4. Pwy sy'n hoffi dawnsio?



5. Hedd yw'r person sy'n siarad yn y testun. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
1. Mae Hedd yn hoffi tomatos.		
2. Mae brawd gan Hedd.		
3. Mae Hedd yn hoffi llond plât o datws.		
4. Mae mam Hedd yn hoffi reis gwyn.		
5. Dydy Hedd ddim yn hoffi ham.		



6. Mae un gair yn y testun mewn print *italaidd*. Copïwch y gair yma.



7. Tynnwch linellau i gysylltu'r gair sydd yn y testun â gair arall sy'n golygu'r un peth. Mae un wedi ei wneud i chi.

Gair yn y testun	Gair tebyg
nain	tad-cu
poeth	ffa pob
bîns	llond plât
taid	mam-gu
plataid	twym



Gweithiwch yn eich grŵp i ysgrifennu penillion newydd – un pennill i bob aelod o'r grŵp. Dechreuwch fel hyn.

Mae _____ yn hoffi _____

Caffi Cadi

Bwydlen



<u>Diodydd</u>	<u>Pris</u>
sudd oren	90c
diod lemon pefriog	60c
siocled poeth	£1.40
te	£1.10



<u>Bwyd sawrus</u>	
brechdanau – dewis o:	
• ham	£2.20
• caws	£2.00
• tomato	£1.80
• salad	£1.80



<u>Tost â dewis o:</u>	
• ffa pob	£1.50
• caws	£1.70
• wy wedi'i sgramblo	£1.70



<u>Bwyd melyn</u>	
cacen ffrwythau	£1.20
cacen foron	£1.30
cacen gaws	£1.50
pice bach	50c
pastai afal â dewis o:	£1.80
• hufen iâ	
• hufen	
• cwstard	

Celyn

Dw i eisiau sudd oren a brechdanau salad os gwelwch chi'n dda.

Ben

Ga i gacen foron a phaned o de plis?

Theo

Dw i eisiau rhywbeth melyn a diod ond dim ond £1.20 sydd gen i.

Soffia

Hoffwn i gael brechdanau wy a diod lemon.

1. Beth mae Ben eisiau i yfed?

2. Pwy sydd eisiau brechdanau salad?



3. Beth sy'n costio dwy bunt?



4. Beth yw'r ddiod sy'n costio fwyaf?



5. Beth yw'r eitem rhataf ar y fwydlen? Dewiswch **un**.

brechdanau ham ☐

pice bach ☐

diod lemon pefriog ☐

hufen ia ☐



6. Tynnwch linellau i gysylltu'r eitem â'r pris. Mae un wedi ei wneud i chi.

wy wedi sgramblo ar dost

pastai afal

cacen gaws

cacen foron

diod lemon pefriog

sudd oren

punt wyth deg

punt tri deg

punt saith deg

punt pum deg

naw deg ceiniog

chwe deg ceiniog



Mae'ch grŵp chi yn mynd i Gaffi Cadi. Mae gennych £5.00 yr un i wario.

Mae'n rhaid i bawb yn y grŵp fwyta yr un peth. Trafodwch beth rydych chi'n mynd i ddewis? Pam?

Ceisiwch berswadio aelodau eraill y grŵp i gytuno â chi.

Hefyd yn y gyfres...



Am fwy o fanylion, ewch i:
<http://www.canolfanpeniarth.org/ditectif-geiriau>

neu'r gweithgareddau:

<http://adnoddau.canolfanpeniarth.org/ditectif-geiriau/>.

